



Ein Cyf/Our ref: DNS 3279787– qA2233203

Mr Steve Harding
Axis
1st Floor, Barfield House
Alderley Road
Wilmslow
SK9 1PL

E-bost: steveharding@axis.co.uk

21 Hydref 2025

Annwyl Steve Harding,

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 - ADRAN 62D
RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016
CAIS GAN RWE RENEWABLES UK AR GYFER DATBLYGIAD ARFAETHEDIG YN
CYNWYS CODI FFERM SOLAR, UNEDAU STORIO BATRI, SEILWAITH
CYSYLLTIEDIG, MYNEDIAD, TIRLUNIO A CHYSYLLTIAD GRID AR DIR RHWNG
TRAFFORDD YR M4 A PHRIF LINELL REILFFORDD DE CYMRU, GER LLANWERN,
UNDERWOOD A THREFESGOB.**

CYFEIRNOD Y CAIS: DNS 3279787

1. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arolygydd a archwiliodd y cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).
2. Yn unol ag adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliad 3 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016, cyflwynwyd y cais i Weinidogion Cymru ar gyfer penderfyniad.
3. Mae copi o adroddiad yr Arolygydd (IR) wedi'i amgáu. Mae'r holl gyfeiriadau at rifau paragraffau yn ymwneud ag adroddiad yr Arolygydd, oni nodir yn wahanol.

Y Prif Ystyriaethau

4. Mae'r Arolygydd yn amlinellu'r prif ystyriaethau yn IR 77:
 - yr effaith ar ecoleg;
 - yr effaith ar gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol yr ardal;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- yr effaith ar leoliad asedau hanesyddol yn yr ardal; a
- ph'un a yw unrhyw niwed a nodwyd mewn perthynas â'r ystyriaethau blaenorol yn cael ei orbwyso gan fuddion y cynllun, yn enwedig ei gyfraniad at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a brwydro yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Ecoleg

Safleoedd Dynodedig

5. Mae'r Arolygydd yn nodi nad yw'r cynllun arfaethedig wedi'i leoli o fewn unrhyw safle ecolegol a ddynodwyd yn rhyngwladol, ond ei fod yn agos i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar Aber Afon Hafren, yn ogystal ag ACA Afon Wysg. Mewn gohebiaeth ddyddiedig mis Medi 2024, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn amodol ar weithredu mesurau lliniaru priodol, nad yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safleoedd rhyngwladol hyn. Triniwyd hyn fel cyngor ffurfiol CNC o dan Reoliad 63(3) at ddibenion Asesiad Priodol. Fodd bynnag, mae rhan o'r safle - y rhan ddeddwreiniol yn benodol - o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Gwastadeddau Gwent - Redwick a Llandyfenni, sydd wedi'i ddynodi ar gyfer ei blanhigion dyfrol ac infertebratau sy'n gysylltiedig â ffosydd y system ddraenio. Mae CNC wedi cynghori bod diddordebau arbennig y SoDdGA yn dibynnu ar gynnal ansawdd a maint dŵr, yn ogystal â bodolaeth y system ddraenio a'i rheolaeth barhaus. Fe allai unrhyw ddatblygiad sy'n cael effaith negyddol ar y ffactorau hyn niweidio'r bywyd gwyllt y dynodwyd y safle ar ei gyfer, gan gynnwys y Gardwenynen Feinlais, sef un o'r gwenyn prinnaf yn y Deyrnas Unedig sy'n nodwedd allweddol o'r SoDdGA. (IR 80-83)

Y Gardwenynen Feinlais (SCB) a'i Chynefin

6. Ni ddaethpwyd o hyd i SCB yn ystod arolygon, ond mae rhannau o'r safle'n cynnig cynefin addas. Er bod CNC ac eraill wedi herio amseriad a chwmpas yr arolwg, canolbwyntiodd yr ymgeisydd ar amlygu planhigion bwyd a chynigir gwella'r glaswelltir blodau gwyllt i gynnal SCB. Er bod SCB yn nodwedd gymwys – na hysbyswyd yn wreiddiol – o'r SoDdGA, ystyrir bod ei chynefin yn bwysig. Mae'r Arolygydd yn mynd ymlaen i ystyried yr effaith ar SCB a chydymffurfedd cysylltiedig y datblygiad â pholisi mewn paragraffau diweddarach, ond o ran ystyried SCB yng nghyd-destun dynodiad y SoDdGA yn unig, mae'n fodlon y gallai amod ar gyfer Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (LEMP) sicrhau gwelliannau i gynefin a helpu i atal dirywiad pellach y rhywogaeth. (IR 84 – 89)

Infertebratau Dyfrol

7. Mae'r Arolygydd yn fodlon ar yr arolwg o ran infertebratau dyfrol. Mae'r mesurau lliniaru ymgorfforedig yn cynnwys llain glustogi 7 metr i ffosydd a llain glustogi 12 metr i sianeli draenio er mwyn darparu mesurau lliniaru addas ar gyfer nodweddion dyfrol (IR 90-94)

Ansawdd Dŵr

8. Mae Adroddiad yr Arolygydd yn amlygu y codwyd pryderon ynglŷn â llygredd dŵr posibl o fetelau gwenwynig mewn paneli solar a chemegau a ddefnyddir ar gyfer glanhau. Fodd bynnag, eglurodd yr ymgeisydd nad yw paneli solar modern a osodir ar y tir yn cynnwys metelau gwenwynig, ac nad yw'r math o baneli a ddefnyddir mewn lleoliadau domestig y mae risgiau o'r fath yn gysylltiedig â nhw yn addas ar gyfer y

datblygiad hwn. I fynd i'r afael ag unrhyw bryderon gweddilliol, cynigir amod sy'n mynnu Cynllun Monitro Ansawdd Dŵr, sy'n cynnwys data sylfaenol, adroddiadau rheolaidd, a mesurau wrth gefn. At ei gilydd, daw'r Arolygydd i'r casgliad nad oes tystiolaeth bendant y byddai'r fferm solar yn niweidio ansawdd dŵr na'r SoDdGA. (IR 95-99)

Rhywogaethau a Warchodir

9. Cadarnhaodd arolygon bresenoldeb neu bresenoldeb posibl rhywogaethau a warchodir ar y safle. O ran SCB, mae'r Arolygydd yn nodi bod pryderon yn parhau ynglŷn ag amseriad arolygon a ph'un a yw'r mesurau lliniaru cynefin yn ddigonol. O ran SCB, nid yw'r Arolygydd yn sicr na fyddai'r datblygiad yn arwain at ddisbyddu poblogaeth gwenyn prin sydd eisoes dan fygythiad o ddifodiant.
10. Mae sawl rhywogaeth adar a warchodir yn defnyddio'r safle, er bod y rhan fwyaf o'r diddordeb adaregol o werth safle neu leol. Fodd bynnag, ceir pryder arbennig am Gornchwiglod, sef rhywogaeth rhestr goch y mae ei phoblogaeth leol yn dirywio. Er y cynigir ardal lliniaru 12 hectar, mae CNC ac eraill yn amheus a yw'n ddigon mawr i wneud iawn yn llwyr am golli cynefin neu gynnal adferiad y boblogaeth. At ei gilydd, nid yw'r Arolygydd yn sicr bod yr ardal lliniaru ar gyfer Cornchwiglod yn ddigon mawr i wneud iawn o leiaf am golli cynefin porfa agored ac â'r heb sôn am gyrraedd y lefel 'gwelliant' sy'n angenrheidiol i fodloni'r ddyletswydd adran 6 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (y Ddeddf).
11. Tybir bod Tylluanod Gwynion yn bridio ar y safle, a bydd mesurau lliniaru'n cael eu cynnwys yn yr LEMP. Ystyrir ystlumod, pathewod, a llygod y dŵr hefyd, ac mae CNC yn fodlon bod y mesurau arfaethedig – fel cadw cynefin, plannu llystyfiant newydd, a phrotocolau penodol i rywogaeth – yn ddigonol.
12. Er hynny, mae'r Arolygydd o'r farn bod y pryderon ynglŷn â'r effeithiau niweidiol posibl ar Gornchwiglod ac SCB yn ddigon i dramgwyddo'r ddyletswydd yn y Ddeddf i warchod a gwella bioamrywiaeth. (IR 100-113)

Polisi Cynllunio Cenedlaethol sy'n Ymwneud â Datblygu mewn SoDdGA

13. Mae paragraff 6.4.25 Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn datgan yn glir fod rhaid osgoi datblygu mewn SoDdGA nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle. Daw'r Arolygydd i'r casgliad, er y byddai'r fferm solar arfaethedig yn cyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy ac yn cynnig buddion ecolegol, nad yw'n bodloni'r gofyniad polisi o fod yn angenrheidiol ar gyfer rheoli'r SoDdGA. Ystyrir bod y buddion yn eilaidd i brif ddiben y datblygiad. (IR 114 – 120)
14. Mae'r Arolygydd wedi ystyried, gan gyfeirio at baragraff 6.4.27 PPW, p'un a oes "amgylchiadau cwbl eithriadol" yn berthnasol. O ystyried amgylchiadau penodol yr achos hwn, nid yw'r Arolygydd o'r farn bod y datblygiad arfaethedig yn creu amgylchiadau cwbl eithriadol. (IR 120- 124)

Dull Fesul Cam

15. Mae'r Arolygydd yn esbonio mai'r dull fesul cam yn PPW yw sicrhau bod bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn cael eu gwarchod trwy broses ddilyniannol: osgoi niwed yn gyntaf, yna lleihau gymaint â phosibl, lliniaru/adfer, ac yn olaf gwneud iawn am effeithiau anochel, gyda gwelliannau wedi'u hintegreiddio ar bob cam. (IR 125)

16. Mae polisi PPW yn amlwg yn blaenoriaethu osgoi niwed i fioamrywiaeth ac yn eithrio safleoedd dynodedig o'u hystyried oni bai y cyfiawnheir bod datblygiad yn gwbl eithriadol. Daw'r Arolygydd i'r casgliad nad oedd yr ymgeisydd wedi dangos bod niwed wedi'i osgoi nac y gellid cyfiawnhau bod y datblygiad yn gwbl eithriadol, sy'n golygu na ddilynwyd y dull fesul cam yn briodol. (IR 127–128)
17. Er bod yr Arolygydd yn fodlon ar yr ystyriaeth o safleoedd amgen, mae'n datgan nad yw prinder safleoedd yn cyfiawnhau torri amddiffyniadau polisi cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth. Fel y cyfryw, ni asesodd yr Arolygydd gamau diweddarach y dull fesul cam (lleihau gymaint â phosibl, lliniaru, gwneud iawn, neu wella trwy'r fframwaith DECCA). (IR 138-139)
18. Yn y pen draw, er bod rhaid i bob cynnig gael ei farnu yn ôl ei rinweddau, mae'n rhaid i benderfyniadau gyd-fynd â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall. Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol yn mynnu budd net i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, yn enwedig mewn ardaloedd fel Gwastadeddau Gwent, sy'n arwyddocaol yn ecolegol. (IR 142–144)
19. Er gwaethaf y mesurau gwella arfaethedig, daw'r Arolygydd i'r casgliad nad ydynt yn drech na'r niwed i safleoedd dynodedig a rhywogaethau a warchodir. Ni fyddai'r cynllun yn gwarchod bioamrywiaeth, yn groes i bolisïau perthnasol y cynllun datblygu a PPW (IR 145–146)

Materion Ecolegol Eraill

20. Roedd y pryderon ecolegol ynglŷn â'r cynnig fferm solar yn canolbwyntio ar effeithiau posibl ar rywogaethau fel Cornchwiglod ac SCB, ac ansawdd dŵr mewn cynefinoedd lleol. Gwnaeth partïon â buddiant gymariaethau â phroblemau lliniaru mewn safle arall (Llanwern Solar), ond mae'r Arolygydd yn nodi bod gwahaniaethau o ran y math o dir a diffyg tystiolaeth lawn yn golygu nad yw cymariaethau uniongyrchol yn ddibynadwy. (IR 147-148)
21. Ystyriodd yr Arolygydd adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar fonitro ôl-adeiladu ar Wastadeddau Gwent. Er yr amlygodd fethiannau lliniaru blaenorol, roedd ei gwmpas yn gyfyngedig. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad fod yr adroddiad yn cynnig gwersi defnyddiol ond nad yw'n profi na all mesurau lliniaru a gwelliannau bioamrywiaeth lwyddo. (IR 149-150)
22. Yn ogystal, nododd yr Arolygydd fod Gorchmynion Cadw Coed (TPOau) newydd ar y safle. Canfu'r Arolygydd y byddai'r gosodiad arfaethedig yn osgoi effeithiau uniongyrchol ar goed a gwrychoedd a warchodir i raddau helaeth, a bod TPOau yn cynnig digon o amddiffyniad yn ystod adeiladu a gweithredu. (IR 151)

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

23. Paratowyd Asesiad Priodol (AA), a lywiwyd gan adroddiad HRA yr ymgeisydd a chyngor gan CNC. Daeth yr asesiad i'r casgliad, gyda mesurau lliniaru, na fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safleoedd dynodedig, naill ai ar ei ben ei hun nac ar y cyd â phrosiectau eraill. (IR 152 -154)

Tirwedd ac Amwynder Gweledol

24. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y Datganiad Amgylcheddol (ES) yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) sy'n seiliedig ar fframweithiau cymeriad tirwedd cenedlaethol a lleol, gan gynnwys LANDMAP CNC a Thirwedd o Ddiddordeb

Hanesyddol (LOHI) Gwastadeddau Gwent. Nid yw'r safle ei hun o fewn tirwedd a ddynodwyd yn genedlaethol, ond mae'n agos i ardaloedd sensitif, gan gynnwys ardal agwedd Rhos Wilcrick a sawl Ardal Cymeriad Tirwedd Hanesyddol (HLCA). Mae'r LVIA yn nodi effeithiau arwyddocaol ar agweddau gweledol a synhwyrdd, ac y byddai'r datblygiad yn cael ei weld fel elfen adeiledig o fewn patrwm caeau helaeth ei llystyfiant. Er bod yr ES yn dod i'r casgliad na fyddai cymeriad cyffredinol y dirwedd yn newid yn sylweddol, mae'n amlygu effeithiau Niweidiol Cymedrol, y mae'r Arolygydd yn datgan y cydnabyddir eu bod yn arwyddocaol. (IR 155–162)

25. Mae'r Arolygydd yn nodi bod yr asesiad o'r dirwedd hanesyddol yn amlygu bod rhan o'r safle o fewn HLCA009 Green Moor, sef hen ardal ffen wedi'i gwarchod yn dda sy'n cyfrannu at y dirwedd hanesyddol ehangach. Mae Cadw yn dadlau y dylai'r effaith ar HLCA009 Green Moor gael ei dosbarthu fel effaith Fawr, yn groes i asesiad Niweidiol Cymedrol yr ES. Er bod y rhan o'r HLCA hon sydd o fewn y safle y tu allan i'r LOHI gofrestredig ac wedi'i gwahanu gan ddatblygiadau presennol, mae'n gwneud cyfraniad ystyrlon at y dirwedd hanesyddol o hyd oherwydd ei bod wedi'i gwarchod yn dda. Canfu'r Asesiad o Arwyddocâd Effaith Datblygiad ar y Dirwedd Hanesyddol (ASIDOHL) fod yr effaith ar HLC009 yn Ddifrifol. Mae'r Arolygydd yn amau'r sail i'r dosbarthiad is o effaith yn yr ES, ond derbyniodd fod yr effaith yn arwyddocaol o safbwynt Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA). Er y cynigir mesurau lliniaru fel atgyfnerthu llystyfiant a phlannu, mae eu heffeithiolrwydd yn ansicr. Mae'r Arolygydd yn rhannu pryderon, heb fesurau lliniaru neu ddigolledu priodol, y byddai'r datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i'r HLCA, er hynny'n lleol o fewn cyd-destun ehangach Gwastadeddau Gwent. (IR 163-166)
26. Yn olaf, mae'r Arolygydd yn nodi er y crybwyllwyd byrddau dehongli mewn cyflwyniadau, nid oeddent wedi'u cynnwys yng nghrynodeb o fesurau lliniaru ffurfiol yr ES. Daw'r Arolygydd i'r casgliad na fyddai mesurau o'r fath yn gwrthbwysu graddau'r niwed yn ddigonol, yn enwedig o ystyried y byddai'r effeithiau ar y dirwedd yn parhau ar hyd 40 mlynedd y datblygiad, sy'n gyfnod sylweddol. (IR 167)

Effaith Weledol

27. Mae'r Arolygydd yn nodi bod derbynyddion gweledol allweddol yn cynnwys anheddiad sensitifrwydd uchel Trefsgob, ffermydd gwasgaredig, coridorau trafniadaeth, a llwybrau hamdden fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 4, yn ogystal â sawl hawl dramwy gyhoeddus (PRoW) sy'n croesi neu'n ffinio'r safle. (IR 168–169)
28. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y Datganiad Amgylcheddol (ES) yn cydnabod y byddai'r datblygiad yn weladwy o ardaloedd agored o fewn ac o amgylch Trefsgob, yn enwedig ar dir sy'n codi i'r gogledd. Er y dyluniwyd y gosodiad i leihau gwelededd, asesodd yr ES effaith Niweidiol Gymedrol ar ei gwaethaf, gan leihau i effaith Niweidiol Fach dros amser. (IR 170)
29. Fodd bynnag, canfu'r Arolygydd y byddai'r arâe solar yn amgylchynu Trefsgob yn weledol i'r gogledd, y dwyrain, a'r gorllewin, gan ffurfio presenoldeb tywyll ac amlwg o ffurf reoledig yn y dirwedd. Byddai hyn yn tarfu ar olygfeydd o sawl cyfeiriad ac yn amharu ar y cymeriad gwledig, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr sy'n nesáu at y pentref. (IR 171)
30. Er gwaethaf cynigion i blannu a darparu lleiniau clustogi, roedd yr Arolygydd o'r farn na fyddai'r paneli solar – hyd at 3 metr o uchder – yn integreiddio'n ddi-dor i'r dirwedd. Byddai eu graddfa a'u ffurf reoledig yn arwain at golli caeau agored ac yn cyflwyno

elfen annodweddiadol, wedi'i pheiriannu i'r lleoliad gwledig am y cyfnod 40 mlynedd. (IR 172)

31. O ran defnyddwyr PRowau cyfagos, mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r profiad yn newid o olygfeydd agored, gwyrdd i amgylchedd mwy cyfyng a llethol yn weledol, yn enwedig ar hyd y llwybr gerllaw'r llinell reilffordd. Byddai golygfeydd i'r gogledd yn cael eu dominyddu gan baneli solar ar dir sy'n codi. (IR 173)
32. Yn yr un modd, mae'r Arolygydd yn nodi na fyddai llawer o ryddhad gweledol ar gael i ddefnyddwyr PRowau i'r dwyrain o Drefesgob, oherwydd byddai paneli solar yn weladwy yn y blaendir a'r cefndir. Mae'r Arolygydd yn nodi pryderon gan swyddog tirwedd yr awdurdod lleol ynglŷn ag ymwithio i'r gorwel a sgrinio annigonol. (IR 174)
33. At ei gilydd, mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r datblygiad yn cyflwyno nodweddion helaeth o wneuthuriad dyn – paneli solar, ffensys, a seilwaith – ar hyd PRowau, gan greu effaith weledol anferthol. Byddai hyn yn amharu'n sylweddol ar allu defnyddwyr i fwynhau llonyddwch a chymeriad gwledig yr ardal, gan effeithio ar les o bosibl. (IR 176)
34. Mae'r Arolygydd yn nodi, er bod yr ES yn cynnig mesurau lliniaru trwy reoli a phlannu llystyfiant, bod pryderon yn parhau y byddai'r datblygiad yn weladwy o hyd, yn enwedig yn y gaeaf. Roedd perygl hefyd y gallai llystyfiant sy'n aeddfedu atal golygfeydd eang presennol, sy'n nodwedd werthfawr o'r ardal. (IR 177)
35. Er y cydnabyddir presenoldeb seilwaith mawr i'r de (e.e. Gwaith Dur Llanwern), mae'r Arolygydd yn pwysleisio bod y datblygiadau hyn i'r de o'r llinell reilffordd ac nad ydynt yn amharu ar y dirwedd draddodiadol, fwy gwledig i'r gogledd ohoni, lle y byddai'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli. (IR 178)
36. Mae'r Arolygydd yn derbyn casgliad yr ES na fyddai effeithiau gweledol cronol arwyddocaol y tu hwnt i'r rhai a aseswyd eisoes. Er gwaethaf rhywfaint o bryder cyhoeddus ynglŷn â'r crynhoad o gynlluniau ynni adnewyddadwy, ystyriwyd bod yr asesiad cronol yn gadarn. (IR 179)
37. O ran yr ystyriaeth o'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol, daw'r Arolygydd i'r casgliad y byddai niwed annerbyniol i unedau tirwedd y mae'r cynllun yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ynghyd â'r effaith weledol ar breswylwyr a defnyddwyr hamdden, mae'r Arolygydd o'r farn bod y rhain yn effeithiau niweidiol arwyddocaol na ellid eu lliniaru'n foddhaol. Felly, mae'r cynllun yn gwrthdaro â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu a PPW. (IR 180)

Yr Effaith ar Dreftadaeth

38. Asesodd y Datganiad Amgylcheddol (ES) yr effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol gan ddefnyddio asesiad desg, arolwg geoffisegol, a gwerthusiad archaeolegol. Er bod sawl ased hanesyddol o fewn 3km o'r safle, nid oes unrhyw rai o fewn y safle ei hun. O ran 8 o'r 10 o asedau a aseswyd, mae'r Arolygydd yn cytuno â'r ES y byddai'r effeithiau'n Niweidiol Bach, yn Ddibwys, neu'n arwain at Ddim Newid o ganlyniad i ryngweledded cyfyngedig a sgrinio presennol. (IR 181–182)
39. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd yn anghytuno ag asesiad yr ES o'r effaith ar leoliadau dwy eglwys restredig: Eglwys Gradd II* y Santes Fair, Llanwern, ac Eglwys Gradd II Sant Cadwaladr, Trefesgob. (IR 183)

40. O ran Eglwys y Santes Fair, mae'r Arolygydd yn derbyn bod ei lleoliad ehangach yn cynnwys caeau agored amgylchynol, er bod rhywfaint o seilwaith gerllaw, fel y rheilffordd a'r gwaith dur. Er y byddai'r datblygiad yn sefyll ychydig yn ôl ac wedi'i sgrinio gan blannu coetir, mae'r Arolygydd o'r farn bod y mesurau lliniaru hyn yn annodweddiadol o'r dirwedd agored ac mae'n dod i'r casgliad y byddai'n torri cysylltiad yr eglwys â'i lleoliad hanesyddol. Mae'r Arolygydd o'r farn bod asesiad yr ES o effaith Ddibwys a Niweidiol Fach yn tanddatgan y niwed. (IR 184–186)
41. O ran Eglwys Sant Cadwaladr, nododd yr Arolygydd er bod llystyfiant yn cyfyngu ar olygfeydd i rai cyfeiriadau, fod yr eglwys yn amlwg o'r gorllewin a'r de, yn enwedig o'r briffordd a'r PRoW gyfagos. Ni fyddai'r dŵl blodau gwyllt arfaethedig i'r gorllewin o'r eglwys yn sgrinio'r paneli solar yn ddigonol ar dir sy'n codi i'r gogledd a'r gogledd-orllewin. Byddai'r paneli hyn yn dominyddu golygfeydd ac yn gwneud tŵr yr eglwys yn llai amlwg, yn enwedig wrth ddynesu o Lanwern. (IR 187–188)
42. Mae'r Arolygydd yn cytuno â Chyngor Dinas Casnewydd y byddai'r datblygiad yn torri'r berthynas weledol rhwng yr eglwys a'i lleoliad yn y dirwedd hanesyddol. Nid yw'r Arolygydd o'r farn bod maint yr effaith a aseswyd yn yr ES, sef effaith Ddibwys gydag effaith ddilynol Niweidiol Ddibwys neu'n Niweidiol Fach, yn wir adlewyrchu'r niwed y byddai'r datblygiad yn ei achosi i leoliad yr Eglwys Restredig Gradd II. (IR 189–190)
43. O ran archaeoleg, mae rhan ddeheuol y safle o fewn Ardal sy'n Sensitif yn Archaeolegol. Mae'r ES yn cynnig dulliau adeiladu anymwrthiol ac ymchwiliadau pellach i warchod olion posibl. Mae'r Arolygydd yn fodlon y byddai'r mesurau hyn, ynghyd ag amodau, yn diogelu buddiannau archaeolegol. (IR 191–192)
44. Er hynny, daw'r Arolygydd i'r casgliad er y gellid rheoli effeithiau archaeolegol, na fyddai lleoliadau'r ddwy eglwys restredig yn cael eu gwarchod, yn groes i bolisiâu perthnasol y cynllun datblygu a PPW.

Buddion y Cynllun

45. Mae'r Arolygydd yn amlygu y byddai'r fferm solar arfaethedig yn cyflawni buddion amgylcheddol ac economaidd sylweddol. Disgwylir iddi wrthbwysio tua 79,500 o dunelli o CO₂ bob blwyddyn a chyfrannu'n ystyrion at dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 100% o drydan adnewyddadwy erbyn 2035. Mae buddion ychwanegol i'r hinsawdd yn cynnwys lleihau dwyster amaethyddiaeth, atafaelu carbon yn well, a gwella iechyd pridd. Mae'r cynllun hefyd yn addo buddion economaidd lleol trwy swyddi adeiladu, datblygu sgiliau, a defnyddio deunyddiau lleol. Cynigir cronfa gymunedol i gefnogi mentrau lleol, er nad yw hyn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. (IR 194- 198)

Ystyriaethau Eraill

Llifogydd

46. Mae'r Arolygydd yn nodi, er y gallai adeiladu achosi effeithiau niweidiol bach i gymedrol – fel risgiau llygredd dros dro a newidiadau i storio dŵr lleol – gellir rheoli'r rhain trwy fesurau lliniaru. Yn ystod gweithredu, disgwylir i'r newid o amaethyddiaeth ddwys wella ansawdd dŵr a lleihau dŵr ffo, byddai'r paneli solar yn uwch na lefelau llifogydd rhagfynedig ac ni fyddai unrhyw seilwaith bregus yn cael ei osod mewn ardaloedd sy'n tueddu i orlifo. Cadarnhaodd CNC fod y perygl llifogydd yn dderbyniol, ac y bydd amodau cynllunio'n sicrhau bod systemau draenio lleol yn cael eu hamddiffyn a bod llygredd yn cael ei reoli yn ystod adeiladu. At ei gilydd, daw'r

Arolygydd i'r casgliad yr ystyrir bod y cynllun yn dderbyniol o ran perygl llifogydd. (IR 200-207)

Diogelwch ar y Priffyrdd

47. Daw'r Arolygydd i'r casgliad, gyda mesurau rheoli traffig priodol yn ystod adeiladu, yr ystyrir bod y datblygiad yn dderbyniol o ran diogelwch ar y priffyrdd. (IR 208-210)

Tir Amaethyddol a Phriddoedd

48. Mae'r Arolygydd yn nodi nad yw'r safle'n cynnwys Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMVAL) ac na fyddai'n achosi niwed sylweddol i dir amaethyddol nac ansawdd pridd. Er yr amlygwyd rhywfaint o briddoedd mawn yn rhan dde-ddwyreiniol y safle, nid ydynt yn ffurfio rhan o gynefin mawndir dynodedig ac ni fyddai effaith arwyddocaol arnynt o ganlyniad i'r dulliau adeiladu anymwrthiol a gynigir. At ei gilydd, mae'r Arolygydd o'r farn bod y datblygiad yn dderbyniol o ran ei effaith ar dir amaethyddol a phriddoedd. (IR 211-215)

Fflachiau a Llacharedd

49. Mae'r Arolygydd yn nodi bod paneli solar yn cael eu gorchuddio â haen wrth-adlewyrchol fel arfer, sy'n lleihau llacharedd posibl ymhellach. Felly, ystyrir bod yr effeithiau ar breswylwyr cyfagos a defnyddwyr y ffyrdd yn fach ac nad ydynt yn rheswm i wrthod caniatâd cynllunio. Yn ogystal, mae'r Arolygydd yn nodi nad oes tystiolaeth y byddai fflachiau a llacharedd yn effeithio'n sylweddol ar fwynhad ymwelwyr na thwristiaeth yn yr ardal. (IR 216-217)

Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol yr Arolygydd

50. Mae'r Arolygydd yn rhoi pwys sylweddol i fuddion economaidd y cynnig a'i gyfraniad at gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gefnogi'r newid i ddyfodol carbon isel yng nghydestun y newid yn yr hinsawdd. (IR 218)
51. Mae'r Arolygydd o'r farn bod effeithiau'r datblygiad ar dir amaethyddol, mawndir, fflachiau a llacharedd, a hydroleg a pherygl llifogydd yn niwtral, ac ystyrir bod unrhyw aflonyddu cysylltiedig ag adeiladu yn fach ac y gellir ei liniaru. Ystyrir bod y ffactorau hyn yn pwysu o blaid y cynnig, gan nad ydynt yn gwrthdaro â pholisi cynllunio. (IR 219)
52. Fodd bynnag, daw'r Arolygydd i'r casgliad y byddai'r cynllun yn achosi effeithiau niweidiol ar gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus (PRoWau), ac y byddai hefyd yn arwain at effaith niweidiol arwyddocaol ar leoliad asedau treftadaeth. Ystyrir bod y niweidiau hyn yn sylweddol ac na ellir eu lliniaru, sy'n pwysu'n drwm yn erbyn y datblygiad. (IR 220)
53. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad hefyd nad yw'r cynnig yn dangos ei fod yn cydymffurfio â dyletswyddau bioamrywiaeth, yn enwedig o ran rhywogaethau a warchodir a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau). Rhoddir pwys sylweddol i'r diffyg cydymffurfedd â'r dull fesul cam i osgoi niwed ecolegol. (IR 221)
54. Wrth gydbwyso'r buddion yn erbyn y niweidiau, daw'r Arolygydd i'r casgliad nad yw buddion y cynnig yn drech na'r niwed i gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol, asedau treftadaeth ac ecoleg/bioamrywiaeth. Canfyddir bod y niweidiau hyn yn torri

Polisiâu 17 a 18 Cymru'r Dyfodol, sy'n ceisio cydbwysu datblygu ynni adnewyddadwy â diogelu'r amgylchedd. (IR 222)

55. O ystyried mai Cymru'r Dyfodol yw'r rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd yn fwyaf diweddar ac sy'n fwyaf perthnasol, ac o ystyried graddau'r gwrthdaro â pholisi, daw'r Arolygydd i'r casgliad nad yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu yn gyffredinol. (IR 223)
56. Er bod yr ymgeisydd yn dadlau y byddai'r datblygiad yn ei le am gyfnod dros dro (40 mlynedd) ac y byddai'n gwbl wrthdroadwy o ran ei effaith weledol, a'i effaith ar y dirwedd neu leoliad unrhyw ased treftadaeth, mae'r Arolygydd yn nodi bod hyn yn cynrychioli cenhedlaeth, ac y byddai'r niweidiau a amlygwyd yn parhau ar hyd y cyfnod hwnnw. (IR 224)

Argymhelliad yr Arolygydd

57. Bod caniatâd cynllunio'n cael ei wrthod ar gyfer y datblygiad a gynigir.

Penderfyniad Gweinidogion Cymru

58. Cytunaf ag arfarniad yr Arolygydd o'r prif ystyriaethau, casgliadau'r IR a'r rhesymeg sy'n sail iddynt, a derbynaf yr argymhelliad. Felly, gwrthodaf ganiatâd cynllunio drwy hyn ar gyfer y cais DNS, cyfeirnod DNS/3279787.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

59. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('y Ddeddf WFG'), gynnal datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i fodloni eu hamcanion llesiant.

Amcanion llesiant

60. Rwyf wedi ystyried i ba raddau y mae gwrthod caniatâd cynllunio yn bodloni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Byddai'r penderfyniad yn cefnogi'r amcan i "wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt" trwy atal y niwed disgwylidig i gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol. Yn yr un modd, mae'n cefnogi'r amcan i "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". Mae effaith y penderfyniad hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral.
61. Wrth wneud fy mhenderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5(2) y Ddeddf WFG ac 'SPSF1: Canllawiau Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar y Ddeddf WFG'.

Edrych tuag at yr hirdymor

62. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr amcan tymor hir i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt trwy warchod y dirwedd leol, yn ogystal ag asedau treftadaeth dynodedig, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Defnyddio ymagwedd integredig

63. Mae'r penderfyniad wedi ystyried y cynllun datblygu a'r ffordd y mae'n integreiddio meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar draws graddfeydd gofodol. Mae hefyd wedi ystyried amcanion y sefydliadau sector cyhoeddus hynny a fu'n

ymwneud â'r broses ymgynghori sy'n dilyn eu hamcanion llesiant eu hunain o dan y Ddeddf WFG, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill

64. O fewn fframwaith proses benderfynu statudol, a lywodraethir gan weithdrefnau rhagnodedig, roedd y cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, a roddodd gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae sylwadau a dderbyniwyd trwy'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar y cais hwn.

Atal

65. Mae gwrthod y cynnig yn atal niwed i'r dirwedd leol a lleoliad asedau treftadaeth dynodedig ac yn atal eu colli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Camau rhesymol

66. Rwyf wedi ystyried p'un a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol, o ystyried dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru. Nodaf mai'r penderfyniad arall fyddai rhoi caniatâd cynllunio i'r datblygiad. Byddai hyn yn cefnogi'r amcan i "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosib". Fodd bynnag, byddai'n cael effaith negyddol ar yr amcanion i "wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". Byddai effaith y penderfyniad arall hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral. O ganlyniad, rwy'n ystyried bod y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Gwybodaeth Amgylcheddol

67. Rwyf wedi pwysu a mesur y Datganiad Amgylcheddol a'r holl wybodaeth amgylcheddol arall a ddarparwyd wrth ystyried y cais hwn, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017.
68. Mae copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at Gyngor Dinas Casnewydd.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio



Ein Cyf/Our ref: DNS 3279787– qA2233203

Mr Steve Harding
Axis
1st Floor, Barfield House
Alderley Road
Wilmslow
SK9 1PL

E-mail: steveharding@axis.co.uk

21 October 2025

Dear Steve Harding,

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 - SECTION 62D THE DEVELOPMENTS OF NATIONAL SIGNIFICANCE (WALES) REGULATIONS 2016
APPLICATION BY RWE RENEWABLES UK FOR A PROPOSED DEVELOPMENT COMPRISING THE ERECTION OF A SOLAR FARM, BATTERY STORAGE UNITS, ASSOCIATED INFRASTRUCTURE, ACCESS LANDSCAPING AND GRID CONNECTION AT LAND BETWEEN THE M4 MOTORWAY AND THE SOUTH WALES MAIN LINE RAILWAY, NEAR LLANWERN, UNDERWOOD AND BISHTON.**

APPLICATION REF: DNS 3279787

1. Consideration has been given to the report of the Inspectors who examined the Development of National Significance (DNS) application.
2. In accordance with section 62D of the Town and Country Planning Act 1990 and regulation 3 of the Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016, the application was made to the Welsh Ministers for determination.
3. A copy of the Inspector's report (IR) is enclosed. All references to paragraph numbers, unless otherwise stated, relate to the IR.

Main Considerations

4. The Inspectors sets out the main considerations in IR 77:
 - the effect on ecology;
 - the effect on the landscape character and visual amenity of the area;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

